**CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion cyfarfod rhithwir i drafod materion yn ymwneud â Deddf Trwyddedu 2003 a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 5 Medi 2023 am 4.30pm.

Cafodd y cyfarfod yma ei ffrydio'n fyw ac mae manylion i'w gweld yma.

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol:**

Y Cynghorydd A Fox (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd G Stacey | Y Cynghorydd S Bradwick |
| Y Cynghorydd L Ellis | Y Cynghorydd G Holmes |
| Y Cynghorydd J Turner | Y Cynghorydd T Williams |

**Swyddogion yn bresennol:**

Ms R Hope, Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio
Mr M Owen, Rheolwr Trwyddedu Cynorthwyol
Ms K Trilloe, Rheolwr Diogelu Iechyd a Thrwyddedu
Mr O Williams, Uwch Gyfreithiwr – Materion Ymgyfreitha
Ms L Warton, Swyddog Materion Trwyddedu
Mr C Booker, Swyddog Gorfodi Materion Trwyddedu

**9 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol K. Johnson, S. Powderhill, M. Powell ac A. Rogers.

**10 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r agenda.

**11 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A'R DDEDDF TROSEDD AC ANHREFN**

**PENDERFYNWYD** nodi pan fydd Aelodau'n trafod y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

**12 COFNODION**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2023 yn rhai cywir.

## 13 ADOLYGIAD O DDEDDF TRWYDDEDU 2003 AC O DDEDDF GAMBLO 2005

Cyflwynodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio yr adroddiad i'r Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn trafod materion perthnasol o ran Deddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005 ar gyfer y cyfnod rhwng 22 Mai 2023 a 20 Awst 2023, yn ogystal â materion atodol eraill sy'n deillio o gyfrifoldebau'r Pwyllgor.

Mae dadansoddiad o'r ceisiadau am Hysbysiadau Achlysuron Dros Dro yn nodi bod 49 wedi'u rhoi i safleoedd sydd â thrwydded eisoes, 93 wedi'u rhoi ar gyfer achlysuron yn y gymuned a 9 wedi'u rhoi i glybiau preifat. Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa bod Hysbysiadau Achlysuron Dros Dro yn dechrau cyrraedd ar gyfer Cegaid o Fwyd Cymru ac mae hyn wedi parhau gyda rhagor ar gyfer achlysuron yn y gymuned megis y Ras Beiciau Modur Flynyddol yn Aberdâr, Caru Treorci, Gŵyl Gelfyddydau Cwm Rhondda, ynghyd â ffeiriau haf llai ac achlysuron chwaraeon yn y gymuned. Ar ben hynny, mae dau leoliad wedi defnyddio Hysbysiadau Achlysuron Dros Dro i'w caniatáu i gynnal gweithgareddau sydd angen trwydded tra'u bod nhw'n aros am ganlyniad eu ceisiadau am Drwydded Safle. Yn ogystal, mae'r broses yma nid yn unig yn eu caniatáu nhw i fasnachu ond hefyd yn rhoi cipolwg i'r Awdurdodau Cyfrifol ar sut y byddai eu safleoedd yn gweithredu pe bai eu ceisiadau'n cael eu cymeradwyo.

Dywedodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio fod dim penderfyniadau wedi'u herio ers cyflwyno'r adroddiad diwethaf i'r pwyllgor, a bod dim adolygiadau i'w trafod yn ystod y cyfnod yma. Serch hynny, mae'r Hen Swyddfa Bost (Squares) wedi cyflwyno apêl sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd.

Cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at adran 4.3 yr adroddiad, lle caiff arolygiadau o safleoedd a thor rheolau eu hamlinellu. Cafodd ei nodi taw 90.15% yw'r lefel cyflawni presennol ar gyfer safleoedd wedi'u harolygu.

Roedd yr Aelodau'n falch o glywed bod tafarn yn Nhreorci wedi bod yn cynnig profiad gwaith i ddisgyblion Ysgol Hen Felin, rhywbeth y mae'r gymuned wedi'i groesawu. Roedd y dyletswyddau'n cynnwys glanhau, helpu gyda derbyn nwyddau, gwasanaethu cwsmeriaid, a chynnal a chadw'r planhigion.

Heblaw hynny, mae honiadau o werthu nwyddau i bobl dan oed wedi dod i law ar gyfer dau eiddo yn ardal Cwm Rhondda. Mae manylion wedi'u hanfon at yr adran Safonau Masnach a Heddlu De Cymru.

Dywedodd Bennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio bod monitro mwy manwl wedi'i gynnal yng nghlwb nos Squares gyda Charfan Iechyd yr Amgylchedd, oherwydd cwynion parhaus am sŵn gan breswylwyr. Yn ogystal, nododd swyddogion fod yna broblem o hyd gyda

sŵn yn dod o gwsmeriaid Squares a bydd manylion y problemau sy'n parhau yn cael eu rhannu yn unol â'r broses apelio barhaus.

Cafodd yr Aelodau wybod bod safle yn ardal Tonysguboriau wedi bod yn destun nifer o gwynion mewn perthynas â sŵn cerddoriaeth a bod Swyddogion Trwyddedu wedi bod yn gweithio'n agos gyda Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd mewn ymgais i leddfu'r problemau. Hefyd, mae Carfan Llygredd adran Iechyd yr Amgylchedd bellach yn ymchwilio i hyn yn fwy manwl.

Cafodd ei adrodd bod swyddogion wedi derbyn rhagor o gwynion yn ymwneud ag eiddo yn ardal Llanilltud Faerdref, yn benodol yn ymwneud â sŵn cwsmeriaid yn defnyddio'r ardd gwrw. Mae swyddogion mewn cyswllt â Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd ac mae ymarferion monitro wedi'u cynnal.

Clywodd yr Aelodau fod adeilad yng nghanol tref Pontypridd wedi cael Trwydded Safle, ond oherwydd problemau'n ymwneud â chynllunio, does dim modd iddo agor yn llawn ar hyn o bryd. Mae Trwyddedu a Chynllunio wedi bod yn rhoi cyngor i berchennog y busnes.

Yn ogystal, mae'r lesddeiliaid newydd yn y Miwni ym Mhontypridd wedi bod mewn cysylltiad â swyddogion i gael rhywfaint o gyngor mewn perthynas â Thrwydded Safle. Rydw i'n siŵr ein bod ni i gyd yn cytuno y bydd yn hyfryd gweld y lleoliad yn agor ac yn masnachu eto. Hefyd, maen nhw'n mynd i ofyn am gyfarfod cyn cyflwyno cais ymhen ychydig fisoedd i gael cyngor gan yr awdurdodau cyfrifol.

Mynegodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio bryderon ynghylch cwynion sydd wedi dod i law am ymddygiad gwrthgymdeithasol a sŵn cwsmeriaid o eiddo yng Nghilfynydd ac mae Swyddogion Trwyddedu yn gweithio gydag awdurdodau eraill i ymchwilio i'r gŵyn yma. Yn ogystal, mae'r eiddo wedi derbyn llythyr gan yr awdurdod trwyddedu.

Clywodd yr Aelodau bod yr heddlu wedi ymateb i sawl digwyddiad ar safle sy'n gweithredu'n hwyr y nos yng nghanol tref Pontypridd yn ddiweddar. Cafodd cyfarfod rhwng rheolwyr y safle, Swyddogion y Cyngor a Swyddogion Trwyddedu Heddlu De Cymru ei gynnal i drafod y problemau ac i gadarnhau mesurau i'w rhoi ar waith yn y dyfodol i leddfu'r broblem

Cafodd ei adrodd bod Swyddog wedi derbyn cwynion yn ddiweddar yn ymwneud â sŵn cwsmeriaid a cherddoriaeth mewn perthynas ag eiddo trwyddedig yn ardal Beddau, yn ogystal â gwastraff yn cael ei adael y tu allan gan staff. Siaradodd Swyddogion Trwyddedu â pherchennog y busnes am y gŵyn sŵn, a dyw hyn ddim wedi bod yn broblem ers hynny. Mae Swyddog Iechyd yr Amgylchedd yn y garfan Llygredd bellach yn ymchwilio i'r mater o sbwriel y tu allan.

Yn ogystal, rhoddwyd Hysbysiad Cau Adran 19 i eiddo yng nghanol tref

Pontypridd ym mis Ebrill 2023, ac mae hwn bellach wedi'i dynnu'n ôl oherwydd cydymffurfiaeth â'u hamodau teledu cylch cyfyng.

Ar ben hynny, safle sy'n gweithredu'n hwyr y nos wedi bod yn destun nifer o gwynion sŵn dros yr 8 wythnos diwethaf. Mae Swyddogion wedi gweithio gyda'r eiddo i leddfu'r problemau yma ac mae'r trigolion lleol wedi bod yn fodlon gyda hyn. Sŵn cerddoriaeth yn hwyr yn y nos ac yn gynnar yn y bore oedd y sŵn yn bennaf, a gwagio biniau poteli yn yr oriau mân. Mae'r eiddo hefyd wedi newid eu harferion gwaith i sicrhau fod y sŵn yma'n dod i ben.

Clywodd yr aelodau fod cyfarfod cyn cyflwyno cais wedi'i gynnal yn Nhŷ-Elái ar gyfer caffi ar Ystâd Ddiwydiannol Aberaman. Rhoddodd swyddogion yr awdurdod cyfrifol gyngor ac arweiniad i berchennog y busnes ac maen nhw'n disgwyl i gais gael ei gyflwyno yn yr wythnosau nesaf.

Cafodd ei adrodd bod eiddo yn Nhrefforest wedi derbyn llythyr gan y garfan trwyddedu oherwydd honiadau o sŵn o'r ardd gwrw. Cysylltodd y lleoliad â'r Swyddogion i egluro bod yr eiddo ar gau ar yr amseroedd honedig ond eu bod nhw wedi cweryla gyda chymdogion yn ddiweddar. Does dim cwyn arall wedi'i gwneud.

Ar ben hynny, efallai bod yr Aelodau'n ymwybodol bod tafarn 'The Lion' yn Nhreorci wedi ennill y Dafarn Gymunedol Orau ym Mhrydain Fawr y llynedd a'r newyddion da yw bod y dafarn wedi cyrraedd y rhestr fer eto eleni, sy'n amlygu'r gwaith da parhaus sy'n cael ei wneud.

Gwnaeth Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio grybwyll Gŵyl Gerddoriaeth Aberdâr a gafodd ei chynnal ddydd Sadwrn 19 Awst. Cymerodd sawl eiddo ran, gan gynnwys The Conway Inn, The Bush Inn, Jacs, No.20 Bar, The National Tap, The Prince of Wales, Clwb Rygbi Aberdâr, The Bute Arms, Judges & Jury's, The White Lion a The Market Tavern, ac mae'n ymddangos bod y digwyddiad wedi bod yn llwyddiannus. Dderbyniodd yr Awdurdod Trwyddedu dim cwynion.

Yn ogystal, cafodd Gŵyl Bwyd a Diod Treorci ei chynnal ddydd Sadwrn 26 Awst. Rhoddwyd Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro ar ei chyfer er mwyn gwerthu alcohol ym maes parcio Llyfrgell Treorci.

Clywodd yr Aelodau fod yr Awdurdod Trwyddedu wedi nodi bod safle sydd wedi'i hen sefydlu yn ardal Llantrisant wedi mynd yn groes i ddeddfwriaeth drwyddedu. Roedd yn ymddangos yn weithred anfwriadol. Aeth y cwmni oedd yn ddeiliad Trwydded y Safle i'r wal y llynedd, felly daeth y drwydded i ben ar unwaith, ond roedd masnachu ar y safle wedi parhau. Yn ogystal, sicrhaodd Swyddogion fod gwerthu alcohol yn dod i ben ar unwaith. Achosodd hynny aflonyddwch mawr i'r busnes yn sgil priodasau a oedd wedi'u trefnu'n barod ymlaen llaw. Defnyddiwyd Hysbysiadau Achlysuron Dros Dro lle'r oedd hynny'n bosibl i gynorthwyo tra bod y safle'n gwneud cais am drwydded newydd.

O ran adennill ffïoedd blynyddol, cafodd Aelodau wybod bod gan yr Awdurdod broses gadarn iawn er mwyn sicrhau bod taliadau'n cael eu derbyn. Bydd yn cymryd camau gweithredu, megis atal trwydded dros dro, os bydd angen. Mae trwyddedau nifer o safleoedd wedi'u hatal dros dro yn ystod y cyfnod yma. Mae hyn wedi arwain at ymateb a thaliad gan y safleoedd dan sylw, felly mae'r mesurau atal trwydded dros dro wedi cael eu dirymu. O ganlyniad i natur statig y fasnach, does dim llawer o newidiadau i'r sefyllfa. Mae adennill 100% o'r ffïoedd blynyddol yn safonol, a hynny'n bennaf oherwydd y darpariaethau cadarn yn y ddeddfwriaeth sy'n rhoi hawl i dynnu'r drwydded yn ôl mewn achosion o beidio â thalu'r ffïoedd priodol.

Cyfeiriodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio yr Aelodau at adran 5.1 yr adroddiad a rhannodd yr wybodaeth ddiweddaraf gyda nhw o ran Deddf Gamblo 2005.

Cafodd Aelodau grynodeb o ganiatâd presennol mewn perthynas â phroffil masnachu safleoedd â thrwydded.

**14 TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD:**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr eitem nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**15 TRWYDDEDAU A CHOFRESTRIADAU A RODDWYD O DAN DDARPARIAETH PWERAU DIRPRWYEDIG YN YSTOD Y CYFNOD: 22.05.23 - 20.08.23**

Cyflwynodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio fanylion trwyddedau a chofrestriadau a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod rhwng 22 Mai 2023 a 20 Awst 2023 i'r Pwyllgor.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

**Daeth y cyfarfod yma i ben am 4.41pm**

**Y Cynghorydd A Fox<br>Cadeirydd.**